

Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant

1. Amcanion polisi

- Effaith pa benderfyniad ydych chi'n ei asesu?

Mae'r asesiad effaith canlynol hwn yn gysylltiedig â'r asesiad hawliau plant a gyhoeddwyd ar gyfer y newidiadau rheoleiddio i wella gwasanaethau mabwysiadu, maethu, gofal gan berthynas a gwarcheidiaeth arbennig yng Nghymru. Mae'r asesiad cyhoeddus hwn ar gael yn

<https://www.llyw.cymru/gwella-gwasanaethau-mabwysiadu-maethu-gofal-gan-berthynas-asesiad-or-effaith-ar-hawliau-plant>

Nod newidiadau arfaethedig Llywodraeth Cymru i'r [Cod Ymarfer Rhan 6 \(Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant sy'n Cael eu Lletya\)](#) a'r [Cod Ymarfer](#) ar arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol mewn perthynas â gorchmynion gwarcheidiaeth arbennig yw cefnogi cysondeb gwasanaethau plant fel rhan o broses ehangach o drawsnewid gwasanaethau plant yng Nghymru.

Nod y cynigion hyn yw cryfhau'r gefnogaeth i blant sy'n agored i niwed a'u teuluoedd, ac maent yn cynnwys y newidiadau allweddol canlynol:

- **Gwella cysondeb rhwng fframweithiau Rhan 6 a Rhan 4:** Bydd y newidiadau arfaethedig yn cryfhau cysondeb rhwng Rhan 6 (plant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n cael eu lletya, gan gynnwys mabwysiadu) a Rhan 4 (cynllunio gofal, lleoli ac adolygu achosion) o Ddeddf 2014, gan ddarparu canllawiau cliriach a mwy integredig i ymarferwyr os mai cael ei fabwysiadu yw cynllun gofal plentyn.
- **Gwella cysondeb wrth gynllunio ar gyfer mabwysiadu a gwneud penderfyniadau mabwysiadu:** Mae'r cynigion yn cyflwyno canllawiau cryfach a mwy manwl i gefnogi dulliau cynllunio mabwysiadu cyson ledled Cymru, gan gynnwys ymgorffori Fframwaith Sefydlogrwydd Cynnar Cymru er mwyn hwyluso penderfyniadau sefydlogrwydd cynharach a mwy effeithiol yn ymarferol.
- **Cyflwyno mwy o hyblygrwydd mewn trefniadau gofal gan berthynas:** Mae'r newidiadau yn adlewyrchu darpariaethau rheoleiddio newydd sy'n caniatáu trefniadau adolygu ac ymweld mwy hyblyg ar gyfer gofalwyr maeth sy'n berthnasau sydd wedi'u cymeradwyo'n llawn, gan sicrhau bod modd teilwra dulliau gweithredu i blant a theuluoedd unigol wrth gynnal goruchwyliaeth ddiogelu briodol.
- **Egluro mynediad at y lwfans maethu uwch:** Mae'r cynigion yn darparu canllawiau cliriach a mwy cyson ar sut mae pob math o ofalwyr maeth, gan gynnwys gofalwyr prif ffrwd, gofalwyr sy'n berthnasau, a gofalwyr a gymeradwyir dros dro, yn gallu cael mynediad at y lwfans maethu uwch, gan hyrwyddo tryloywder a thegwch ledled y system.

- **Cynlluniau Cymorth Gwarcheidiaeth Arbennig:** Gofyniad statudol i awdurdodau lleol ddefnyddio templedi cynlluniau cymorth a ddatblygwyd yn genedlaethol i sicrhau cysondeb a chymorth o ansawdd ar gyfer gwarcheidwaid arbennig a'r plant yn eu gofal.
- **Rhianta corfforaethol:** Diben y bennod fydd darparu canllawiau ychwanegol i awdurdodau lleol ar eu rôl fel rhieni corfforaethol. Mae'r bennod hon yn ymdrin â'r canlynol:
 - sefydlu paneli rhianta corfforaethol gyda chymorth pobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal.
 - rôl rhieni corfforaethol wrth ddarparu gwybodaeth i blant a phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal pan fyddant mewn gofal a hefyd wrth adael gofal.
 - enghreifftiau o sut mae awdurdodau lleol yn gallu adrodd ar gynnydd wrth gyflawni eu rôl fel rhiant corfforaethol.
- **Cryfhau pwysigrwydd llais y plentyn:** Mae'r newidiadau arfaethedig yn cryfhau pwysigrwydd gwrandio ar lais y plentyn mewn prosesau gwahanol.
- **Cryfhau canllawiau ar gynnal symudiadau a chyfarfodydd adolygu:** Mae'r newidiadau arfaethedig yn ymwneud â thrin eiddo personol plant sy'n derbyn gofal ac osgoi, lle bo'n bosibl, defnyddio bagiau du pan fydd plant yn symudiad i leoliad newydd. Hefyd, maent yn ymwneud â cheisio osgoi cynnal cyfarfodydd adolygu yn ystod amser gwersi.
- **Terminoleg a deddfwriaeth wedi'u diweddaru:** Ers y diweddariadau diwethaf i God Ymarfer Rhan 6 ym mis Ebrill 2018, bu rhai newidiadau i derminoleg a deddfwriaeth. Mae nifer o newidiadau arfaethedig i'r Cod Ymarfer Rhan 6 yn adlewyrchu'r newidiadau hyn.

Nod y newidiadau arfaethedig yw gwella canlyniadau i blant trwy wella ansawdd, hygyrchedd a chysondeb gwasanaethau gofal a chymorth. Maent yn cryfhau'r gydnabyddiaeth bod gan bob plentyn dan 18 hawlogaeth i'w hawliau (Erthygl 1) ac yn sicrhau bod yr hawliau hyn yn cael eu cynnal heb wahaniaethu (Erthygl 2).

Mae'r cynigion yn atgyfnerthu budd pennaf y plentyn fel prif ystyriaeth (Erthygl 3), ac yn cydnabod pwysigrwydd perthnasoedd rhieni a theuluol (Erthygl 5) a chefnogi datblygiad, iechyd a llesiant plant (Erthyglau 6 a 24). Hefyd, maent yn hyrwyddo hunaniaeth plant, gan gynnwys hunaniaeth ddiwylliannol ac ieithyddol (Erthyglau 8 a 30), ac yn cynnal eu hawl i fynegi eu barn a derbyn gwybodaeth hygyrch er mwyn llywio penderfyniadau am eu bywydau (Erthyglau 12 a 13).

Wrth gryfhau cymorth i ofalwyr a gwasanaethau (Erthygl 18), mae'r newidiadau hefyd yn cyfrannu at amddiffyn plant rhag niwed (Erthygl 19) a sicrhau trefniadau gofal priodol i'r rhai nad ydynt yn gallu byw gyda'u teuluoedd (Erthygl 20), gan gynnwys prosesau mabwysiadu effeithiol a sefydlog (Erthygl 21). Mae'r cynigion yn cydnabod anghenion penodol plant anabl (Erthygl 23) ac yn ceisio sicrhau mynediad

at gymorth ariannol a safonau byw digonol (Erthyglau 26 a 27), yn ogystal â chyfleoedd addysg a datblygu (Erthyglau 28 a 29).

Yn ogystal, maent yn atgyfnerthu pwysigrwydd adolygu trefniadau gofal yn rheolaidd (Erthygl 25) ac yn darparu fframweithiau sy'n cynorthwyo plant i adfer ar ôl trawma ac ailintegreiddio'n llwyddiannus (Erthygl 39). Gyda'i gilydd, mae'r newidiadau hyn yn hyrwyddo sefydlogrwydd, parhad a chymorth holistaidd, gan sicrhau bod profiadau o fod mewn gofal yn galluogi plant i deimlo'n ddiogel, teimlo bod pobl yn eu parchu a theimlo eu bod yn derbyn cymorth i sicrhau canlyniadau cadarnhaol.

2. Casglu tystiolaeth ac ymgysylltu â phlant a phobl ifanc

Ymchwil a Data Presennol

Mabwysiadu, Maethu a Gofal gan Berthynas

Mae newidiadau Llywodraeth Cymru yn cael eu llywio gan ystod o waith ymchwil sy'n bodoli eisoes, adborth gan y sector ac astudiaethau a gomisiynwyd. Mae'r ffynonellau allweddol yn cynnwys:

- Adborth gan weithwyr proffesiynol gwasanaethau cymdeithasol plant ledled Cymru, sy'n nodi'r heriau sy'n gysylltiedig â mabwysiadu, maethu a gofal gan berthynas trwy amryw fforymau a grwpiau diddordeb arbennig.
- Gwaith ymchwil a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru yn ymwneud â Gwarcheidiaeth Arbennig yn chwalu (2020), sydd wedi amlygu pwysigrwydd cysondeb wrth gynllunio cymorth: [Gwarcheidiaeth Arbennig a Chwalodd yng Nghymru: Astudiaeth Archwiliadol](#)
- Gwybodaeth am ymarfer gan AFKA Cymru gan gynnwys datblygu templedi cynlluniau cymorth ([Canolbwynt Adnoddau - AFKA Cymru](#)) ac ymgysylltu ag ymarferwyr awdurdodau lleol mewn grwpiau diddordeb arbennig rheolaidd.

Mae'r ffynonellau hyn yn darparu sylfaen dystiolaeth gadarn ar gyfer y newidiadau arfaethedig, yn enwedig wrth nodi bylchau mewn gwasanaethau, anghysondebau mewn ymarfer, a'r angen am ddulliau gweithredu mwy hyblyg sy'n canolbwyntio ar y plentyn.

Ymgysylltwyd â sefydliadau sy'n cynrychioli plant a phobl ifanc yn y sector mabwysiadu a maethu megis y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol, Mentrau Cydweithredol Mabwysiadu Rhanbarthol yng Nghymru, Asiantaethau Mabwysiadu Gwirfoddol, Maethu Cymru, Kinship Cymru, a Grŵp Diddordeb Arbennig AFKA Cymru ar gyfer Gwarcheidwaid Arbennig a Gofalwyr sy'n Berthnasau. Ymgysylltwyd â'r sefydliadau trwy gyfuniad o weithdai, cyfarfodydd rhanddeiliaid, a grwpiau diddordeb arbennig parhaus, lle gofynnwyd i randdeiliaid ddarparu adborth ar gynigion polisi sy'n dod i'r amlwg a nodi heriau ymarferol. Defnyddiwyd yr adborth hwn i lywio'r gwaith o ddatblygu'r newidiadau arfaethedig, gan gynnwys nodi meysydd lle roedd angen mwy o eglurder, cysondeb a hyblygrwydd mewn ymarfer.

Mae adborth ar gyfer helpu i ystyried newidiadau i reoliadau mabwysiadu wedi'i ddarparu drwy'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol, sy'n cynorthwyo Adoption UK Cymru i gynnal cyngor ieuenctid 'Lleisiau CONNECT'. Mae cyngor ieuenctid 'Lleisiau CONNECT' yn dwyn ynghyd bobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal, gan gynnwys y rhai sydd â phrofiad o gael eu mabwysiadu, er mwyn darparu fforwm ar gyfer rhannu barn a safbwyntiau am y system. Mae'r themâu a nodwyd drwy'r llwybr hwn wedi cynnwys pwysigrwydd sefydlogrwydd a sicrhau bod pobl yn gwrando ar farn pobl ifanc wrth wneud penderfyniadau, sydd wedi'u hystyried ochr yn ochr â thystiolaeth ehangach wrth ddatblygu'r cynigion.

Roedd aelodau grŵp diddordeb arbennig ar gyfer gofal gan berthynas yn gallu gofyn am farn y plant a'r bobl ifanc y buont yn gofalu amdanynt er mwyn cael adborth. Trwy'r ymgysylltiad hwn, dywedodd plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal gan berthynas ei bod yn well ganddynt drefniadau sy'n cydnabod natur unigryw trefniadau gofal gan berthynas. Ystyriwyd yr adborth hwn wrth ddatblygu cynigion yn ymwneud ag asesu ac adolygu gofalcwyr maeth sy'n berthnasau, gyda'r bwriad o sicrhau bod y prosesau hyn yn fwy cymesur ac yn adlewyrchu gofal teuluol.

Hefyd, nodwyd bod pobl ifanc sy'n derbyn gofal gan berthynas yn teimlo bod cael eu trin fel "pobl ifanc sy'n derbyn gofal" o dan y system bresennol yn anghymesur ac yn arwain at stigma. Roeddent eisiau am i ofal teuluol gael ei gydnabod fel rhywbeth sy'n wahanol i brosesau maethu prif ffrwd. Roedd gwrando ar leisau plant, pobl ifanc a defnyddwyr gwasanaethau yn fodd uniongyrchol o lywio'r cynigion i gyflwyno fframwaith asesu wedi'i deilwra ar gyfer gofalcwyr maeth sy'n berthnasau a threfniadau adolygu mwy hyblyg.

Yn gyffredinol, mae ymchwil, ymgysylltu a mewnwleidiadau ymarfer gan randdeiliaid sy'n gweithio ochr yn ochr â phlant ac yn cynrychioli plant, gan gynnwys adborth ar brofiadau plant, wedi galluogi swyddogion polisi i ddatblygu'r cynigion a amlinellwyd yn yr ymgynghoriad.

Rhianta Corfforaethol, Cryfhau Llais y Plentyn a chanllawiau ar symudiadau a lleoliadau

Mae newidiadau Llywodraeth Cymru yn cael eu llywio gan ystod o waith ymchwil sy'n bodoli eisoes ac adborth gan y sector. Mae'r ffynonellau allweddol yn cynnwys:

Adroddiad Lwc/prosiect Enya: Cymerodd Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru ran mewn darn o waith Ewrop gyfan gyda'r Rhwydwaith Ewropeaidd o Ombwdsmydd Plant (ENOC) a oedd yn canolbwyntio ar Ofal Amgen. Bu'n gweithio gyda merched Hope yng Nghastell-nedd Port Talbot i'w helpu i gymryd rhan yn y Rhwydwaith Ewropeaidd o Gynghorwyr Ifanc (ENYA). Arweiniodd y gwaith at adroddiad ac arddangosfa Lwc, ynghyd â phum argymhelliad. [Lwc | Luck: Profiadau Pobl Ifanc sydd â Phrofiad Gofal – Y stori hyd yma - Comisiynydd Plant Cymru](#)

Uwchgynadleddau a Datganiad Diwygio Radical: Yr uwchgynadleddau blynyddol Pobl Ifanc sy'n Gadael Gofal a gynhaliwyd yn ystod tymor y Senedd hon. Mae'r Uwchgynadleddau yn canolbwyntio ar sicrhau bod lleisiau plant a phobl ifanc yn cael eu clywed. Yn yr Uwchgynadleddau, mae'r plant a'r bobl ifanc yn dewis y pynciau

trafod, yn gofyn cwestiynau ac yn cael cyfle i leisio eu barn. Mae'r [Datganiad Uwchgynhadledd Pobl Ifanc â Phrofiad o fod mewn Gofal](#) sy'n deillio o hynny yn amlinellu gweledigaeth pobl ifanc ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol plant yng Nghymru. Mae'r sgysiau a'r ymgysylltu rhwng Gweinidogion a phobl ifanc a'r datganiad wedi darparu tystiolaeth i lywio'r newidiadau arfaethedig i'r Cod Ymarfer Rhan 6.

Ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i ddiwygio radical: Cynhaliodd y pwyllgor ymchwiliad i ddiwygio gwasanaethau plant mewn ffordd radical. Mae'r adroddiad canlyniadol 'Os nad nawr, pryd?' yn manylu ar yr ymchwil a'r dystiolaeth sy'n cefnogi'r angen am ddiwygiadau radical i wasanaethau plant yng Nghymru ac yn cyflwyno argymhellion i Lywodraeth Cymru. Gellir gweld copi o'r adroddiad llawn a thystiolaeth ategol yn: [Gwasanaethau i blant sydd wedi bod mewn gofal: archwilio diwygio radical](#)

Ymgyrch My Things Matter: Ymgyrch y Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol sydd wedi gwneud gwaith ymchwil a datblygu ymgyrch ar gyfer gwella cymorth a pharch at blant â phrofiad o fod mewn gofal a'u heiddo pan fyddant yn symud, ledled Cymru a Lloegr. [My Things Matter | Supported by Madrug Bags | NYAS](#)

Mae'r Siarter Rhianta Corfforaethol yn seiliedig ar sut mae pawb yn gallu cydweithio i gefnogi a gwella canlyniadau i blant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal a sicrhau eu bod yn cael y cyfleoedd bywyd y maent yn eu haeddu. Mae egwyddorion ac addewidion y [Siarter](#) yn cyd-fynd â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP).

Yr effaith a ragwelir ar blant a phobl ifanc

Disgwylir i'r cynigion gael effaith gadarnhaol ar y rhan fwyaf o grwpiau o blant a phobl ifanc, yn enwedig y rhai sy'n perthyn i'r categorïau canlynol:

- **Plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal neu'n cael eu mabwysiadu:** Disgwylir y bydd rhianta corfforaethol cryfach, cynlluniau gofal a chymorth gwell, a chysondeb cliriach rhwng fframweithiau cynllunio mabwysiadu a gofal yn cynorthwyo'r broses o wneud penderfyniadau, yn gwella sefydlogrwydd, ac yn sicrhau canlyniadau hirdymor mwy cyson.
- **Plant a phobl ifanc sy'n destun prosesau cynllunio ac adolygu gofal:** Bydd canllawiau gwell ar waith amlasiantaeth, prosesau adolygu, a rôl y Swyddog Adolygu Annibynnol yn cynorthwyo goruchwyliaeth fwy effeithiol, yn helpu i gydlynw gwasanaethau, ac yn cryfhau'r broses o ystyried anghenion a safbwyntiau'r plentyn.
- **Plant a phobl ifanc sy'n symud i leoliad newydd:** Disgwylir y bydd canllawiau gwell ar newid lleoliad, gan gynnwys trin eiddo personol, yn hyrwyddo llesiant emosiynol, urddas a gofal parhaus yn ystod cyfnodau o newid.

- **Plant a phobl ifanc sy'n byw mewn trefniadau gofal gan berthynas:** Bydd lefel uwch o hyblygrwydd mewn trefniadau adolygu ac ymweld yn hwyluso dull mwy cymesur, wedi'i deilwra, sy'n adlewyrchu amgylchiadau teuluol, yn lleihau ymyrraeth ddiangen, ac yn cynorthwyo sefydlogrwydd lleoliad wrth gynnal trefniadau diogelu.
- **Plant a phobl ifanc sy'n destun cynlluniau mabwysiadu a phenderfyniadau sefydlogrwydd cynnar:** Bydd mwy o eglurder a chysondeb ar gyfer cynlluniau mabwysiadu, gan gynnwys ymgorffori Fframwaith Sefydlogrwydd Cynnar Cymru, yn cynorthwyo penderfyniadau amserol sy'n seiliedig ar wybodaeth ac yn darparu cartrefi sefydlog a pharhaol yn gynharach.
- **Plant a phobl ifanc sy'n derbyn cymorth gan ofalwyr maeth:** Bydd canllawiau cliriach ar fynediad at y lwfans maethu uwch yn gwella tryloywder a chysondeb, gan gynorthwyo gofalwyr i ddiwallu anghenion plant yn effeithiol a chyfrannu at sefydlogrwydd lleoliadau.
- **Plant a phobl ifanc sy'n byw gyda gwarcheidwaid arbennig:** Trwy gyflwyno templedi safonedig ar gyfer cynllun cymorth gwarcheidiaeth arbennig, bydd modd darparu dull mwy cyson, strwythuredig a theg o asesu angen a darparu cymorth ledled Cymru.

Er bod disgwyl i'r cynigion gael effeithiau cadarnhaol yn bennaf ar hawliau plant, mae angen ystyried rhai risgiau posibl. Gallai cynyddu hyblygrwydd mewn trefniadau adolygu ac ymweld ar gyfer lleoliadau gofal maeth gan berthynas arwain at ddefnydd anghyson ar draws awdurdodau lleol, a allai effeithio ar hawl rhai plant i drefniadau goruchwyllo a diogelu cyson os nad yw'r trefniadau yn cael eu rheoli'n ofalus. Hefyd, mae perygl y gallai amrywiadau mewn ymarfer neu ddiffyg adnoddau gyfyngu ar y graddau y mae fframweithiau cynllunio gofal a mabwysiadu yn cael eu gwireddu'n llawn yn ymarferol, gan effeithio o bosibl ar brofiadau a chanlyniadau plant.

Yn ogystal, er bod ymdrechion i symleiddio prosesau a lleihau ymyrraeth ddiangen yn gadarnhaol, mae perygl o hyd y gallai hyn gael effaith anfwriadol trwy leihau cyfleoedd i leisiau plant gael eu clywed neu leihau cyfleoedd i nodi pryderon yn gynnar, yn enwedig os oes llai o gyswllt proffesiynol.

Gellir lliniaru'r risgiau hyn drwy sicrhau canllawiau cenedlaethol clir, trothwyon diogelu cadarn, a dulliau gweithredu cyson ledled Cymru. Bydd monitro a gwerthuso parhaus, ochr yn ochr â chryfhau rôl y Swyddog Adolygu Annibynnol, yn helpu i sicrhau bod safbwyntiau plant yn parhau i gael eu clywed a bod eu budd pennaf yn parhau i fod yn ganolog i bob penderfyniad. Hefyd, dylid cynnal a chryfhau mynediad at wasanaethau eiriolaeth a chymorth er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn gallu arfer ei hawliau yn effeithiol.

Ymgysylltu â Phlant a Phobl Ifanc

Mabwysiadu, Maethu a Gofal gan Berthynas

Er bod proses ymgysylltu helaeth wedi'i chynnal ar y newidiadau arfaethedig â gweithwyr proffesiynol a rhanddeiliaid sy'n cynrychioli plant a phobl ifanc, nid yw Llywodraeth Cymru wedi ymgymryd â gwaith cyfranogol uniongyrchol gyda nhw oherwydd natur dechnegol y cynigion. Mae'r rhain yn gymhleth ac nid ydynt yn ddealladwy i blant heb wybodaeth arbenigol. Yn hytrach, gwnaethom ddibynnu ar sefydliadau sy'n cynrychioli lleisiau plant i sicrhau bod eu safbwyntiau yn llywio'r gwaith o ddatblygu polisi. Mae'r sefydliadau hyn yn ymgysylltu'n rheolaidd â phlant a phobl ifanc fel rhan o'u gwaith parhaus, ac roedd eu cyfraniadau at y broses hon wedi'u llywio gan eu gwybodaeth am brofiadau a safbwyntiau plant.

Mae'r cynigion yn ymateb i adborth gan bobl ifanc sy'n derbyn gofal gan berthynas sydd wedi mynegi pryderon am effaith anghymesur y system plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal ar eu lleoliadau. Mae hyn yn adlewyrchu safbwyntiau a gasglwyd trwy ymgysylltu â rhanddeiliaid a grwpiau cynrychioladol, lle roedd profiadau plant wedi'u rhannu â'r sefydliadau hyn a'u cyfleu ganddynt.

Rhianta Corfforaethol, Cryfhau Llais y Plentyn a chanllawiau ar symudiadau a lleoliadau

Yn ogystal â'r Uwchgynhadledd Profiad o Ofal y cyfeirir ati uchod, mae plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn cael eu cynrychioli ac yn cymryd rhan yng Ngrŵp Cyflawni'r Rhaglen Trawsnewid a'r Grŵp Gweithredu Rhianta Corfforaethol. Trwy'r cyfarfodydd hyn, mae pobl ifanc wedi rhoi adborth ar eu profiadau o wasanaethau a'r hyn yr hoffent ei weld o safbwynt atebolrwydd a sut y bydd awdurdodau lleol yn adrodd ar gynnydd wrth ddarparu rhianta corfforaethol a gwella mynediad at wybodaeth am hawliau a hawlogaethau pan fydd pobl ifanc yn gadael gofal. Mae'r newidiadau arfaethedig i'r Cod Ymarfer Rhan 6 wedi'u datblygu mewn cydweithrediad â'r Grŵp Gweithredu Rhianta Corfforaethol ac maent wedi ymateb i adborth gan y bobl ifanc sy'n aelodau o'r Grŵp.

Roedd Pobl Ifanc wedi cymryd rhan weithredol yn y Digwyddiad Arferion Gorau Rhianta Corfforaethol a gynhaliwyd am y tro cyntaf ym mis Chwefror 2025. Yn ystod y digwyddiad, fe wnaeth y bobl ifanc arwain trafodaeth ar bwysigrwydd rhianta corfforaethol iddynt, ac roedd eu negeseuon wedi creu argraff fawr ar y mynychwyr. Buont yn myfyrio ar eu gobaith y bydd Rhianta Corfforaethol yn herio ac yn newid y sefyllfa ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal, ac roeddent yn erfyn ar sefydliadau nid yn unig i wrando ar leisiau plant ond hefyd i wireddu eu haddewidion rhianta corfforaethol.

Yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus ar y newidiadau arfaethedig i'r Cod Ymarfer Rhan 6, cynhaliwyd sesiwn ymgysylltu a chyfranogi gyda phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal ar y cynigion yn ymwneud â rhianta corfforaethol yn benodol. Roedd yr adborth ar y cynigion yn gadarnhaol ac roedd pobl ifanc yn awyddus i gael mynediad at wybodaeth mewn fformatau a fydd yn hygyrch iawn iddynt, fel apiau a llyfrau. Hefyd, nodwyd eu bod am i rieni corfforaethol fod yn atebol am gyflawni ac i rannu gwybodaeth am gynnydd.

Mae'r bennod newydd ar rianta corfforaethol yn ceisio ymateb i'r adborth hwn drwy:

- Ddarparu arweiniad i awdurdodau lleol ar sefydlu paneli rhianta corfforaethol gyda chymorth pobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal.
- Manylu ar rôl rhieni corfforaethol wrth ddarparu gwybodaeth i blant a phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal pan fyddant mewn gofal a hefyd wrth adael gofal.
- Darparu enghreifftiau o sut mae awdurdodau lleol yn gallu adrodd ar gynnydd wrth gyflawni eu rôl fel rhiant corfforaethol.

3. Dadansoddi'r dystiolaeth ac asesu'r effaith

Mabwysiadu, Maethu a Gofal gan Berthynas

Gan ddefnyddio'r dystiolaeth a gasglwyd o'r gwaith ymchwil, adborth rhanddeiliaid, ac ymgysylltu â'r sector, mae'r newidiadau polisi yn debygol o gael effaith gadarnhaol yn gyffredinol ar blant a phobl ifanc ledled Cymru, yn enwedig y rhai sy'n derbyn gofal, sydd wedi'u mabwysiadu, neu sy'n byw mewn trefniadau gofal gan berthynas.

Effeithiau Cadarnhaol

- **Gwella cysondeb wrth greu cynlluniau mabwysiadu a gwneud penderfyniadau:**
Bydd cryfhau cysondeb rhwng fframweithiau Rhan 6 (mabwysiadu) a Rhan 4 (cynllunio gofal) yn darparu canllawiau cliriach a mwy cyson ar gyfer ymarferwyr. Disgwylir y bydd hyn yn helpu'r broses o wneud penderfyniadau gwell ar sail gwybodaeth ac yn gwella sefydlogrwydd a chanlyniadau hirdymor i blant y mae eu cynlluniau gofal yn cynnwys mabwysiadu.
- **Lleoliadau parhaol yn gynharach a gwell sefydlogrwydd:**
Bydd ymgorffori Fframwaith Sefydlogrwydd Cynnar Cymru yn helpu i wneud penderfyniadau mwy amserol a gosod unigolion yn gynharach mewn cartrefi sefydlog, parhaol, gan leihau ansicrwydd a hyrwyddo llesiant plant.
- **Trefniadau gofal gan berthynas mwy cymesur sy'n canolbwyntio ar y plentyn:**
Bydd mwy o hyblygrwydd o ran gofynion adolygu ac ymweld ar gyfer gofalwyr maeth sy'n berthnasau yn sicrhau bod modd teilwra dulliau gweithredu i anghenion plant a theuluoedd unigol. Disgwylir y bydd hyn yn lleihau ymyrraeth ddiangen, yn cefnogi perthnasoedd teuluol, ac yn hyrwyddo sefydlogrwydd lleoliadau wrth gynnal trefniadau diogelu.
- **Gwella cymorth ar gyfer gofalwyr maeth:**
Bydd canllawiau cliriach a mwy cyson ar fynediad at y lwfans maethu uwch yn cynorthwyo gofalwyr i ddiwallu anghenion plant yn effeithiol, gan gyfrannu at leoliadau mwy sefydlog a chanlyniadau gwell i blant sy'n derbyn gofal maeth.
- **Mwy o gysondeb wrth ddarparu cymorth ar gyfer trefniadau gwarcheidiaeth arbennig:**

Bydd cyflwyno templedi cenedlaethol statudol ar gyfer cynlluniau cymorth yn hyrwyddo dull mwy strwythuredig, teg a thryloyw o asesu angen a darparu cymorth, gan sicrhau bod plant a theuluoedd yn derbyn lefelau cyson o gymorth waeth beth fo'u lleoliad.

Effeithiau Negyddol Posibl a Mesurau Lliniaru

- **Perygl o ddiffyg cysondeb wrth gymhwyso hyblygrwydd:**

Mae'n bosibl y bydd cynyddu lefelau hyblygrwydd mewn trefniadau gofal gan berthynas yn arwain at amrywiad o ran sut mae awdurdodau lleol yn bodloni gofynion adolygu ac ymweld, gan effeithio o bosibl ar gysondeb gwaith diogelu a goruchwyllo.

Lliniaru: Bydd canllawiau cenedlaethol clir, monitro parhaus, a phrosesau goruchwyllo cryfach (gan gynnwys dulliau adolygu) yn helpu i sicrhau bod hyblygrwydd yn cael ei gymhwyso'n briodol ac yn gyson.

- **Heriau gweithredu ar gyfer ymarferwyr:**

Mae'r broses o gyflwyno fframweithiau diwygiedig a gofynion newydd (gan gynnwys cysoni prosesau mabwysiadu a defnyddio templedi cynlluniau cymorth) yn gallu creu heriau trosiannol, yn enwedig os oes diffyg hyfforddiant neu gapasiti.

Lliniaru: Bydd darparu canllawiau clir, hyfforddiant ar gyfer ymarferwyr, a chymorth parhaus yn hanfodol i sicrhau prosesau gweithredu effeithiol.

- **Potensial ar gyfer amrywiad mewn mynediad at gymorth:**

Er bod y canllawiau yn cael eu cryfhau, mae perygl o hyd y gallai gwahaniaethau mewn arferion lleol effeithio ar y graddau y mae lwfansau uwch neu gynlluniau cymorth yn cael eu cymhwyso.

Lliniaru: Bwriad cyflwyno canllawiau cliriach a gofynion statudol yw lleihau amrywiad, gyda chymorth prosesau monitro a goruchwyliaeth genedlaethol.

Nod cyffredinol y cynigion yw cryfhau hawliau plant i gael sefydlogrwydd, cymorth priodol, a phroses gyson o wneud penderfyniadau yn y system ofal. Er bod rhai risgiau yn ymwneud â gweithredu a chysondeb yn parhau, mae'r rhain yn cael eu cydnabod a gellir eu lliniaru trwy ddarparu canllawiau clir, hyfforddiant a goruchwyliaeth gadarn, gan sicrhau bod budd pennaf plant yn parhau i fod yn ganolog i bob penderfyniad.

Rhianta Corfforaethol, Cryfhau Llais y Plentyn a chanllawiau ar symudiadau a lleoliadau

Gan ddefnyddio'r dystiolaeth a gasglwyd ac a amlinellwyd uchod, bydd y newidiadau arfaethedig i'r Cod Ymarfer Rhan 6 yn ymwneud â rhianta corfforaethol a llais y plentyn yn cael effaith gadarnhaol ar blant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Bydd yr adran rhianta corfforaethol ychwanegol yn y Cod Ymarfer Rhan 6 a'r adran ar gryfhau llais plant a phobl ifanc yn y Cod yn gwella hawliau plant.

Erthyglau neu Brotool Dewisol CCUHP	Gwella (X)	Herio (X)	Esboniad
Erthygl 1 – diffiniad o blentyn - mae gan bawb o dan 18 oed hawliau	Ymwybyddiaeth o hawl plant i sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed wrth wneud penderfyniadau amdanynt.	Natur dechnegol rhai trafodaethau a sicrhau dealltwriaeth.	Diben y newidiadau yw cryfhau llais y plentyn mewn sawl rhan o'r Cod Ymarfer Rhan 6 – megis lleoliadau, symudiadau a chyfarfodydd adolygu. Yn ogystal, bydd y canllawiau newydd ar rianta corfforaethol yn helpu i gyflawni'r egwyddor Cydraddoldeb yn y Siarter Rhianta Corfforaethol sy'n cyd-fynd ag erthygl 1.
Erthygl 2 – Dim gwahaniaethu.	Cydnabyddiaeth o blant a phobl ifanc am bwy ydynt. Hyrwyddo mynediad teg trwy gynlluniau mabwysiadu cyson, fframweithiau gwarcheidiaeth arbennig, a chymorth ariannol cliriach ledled Cymru.	Natur dechnegol rhai trafodaethau a sicrhau dealltwriaeth. Perygl o fynediad anghyfartal os yw prosesau'n gymhleth neu os ydynt yn cael eu cymhwyso'n anghyson ar lefel leol.	Mae'r Cod Ymarfer Rhan 6 yn amlinellu'r dyletswyddau ar gyfer awdurdodau lleol mewn perthynas â phlant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n cael eu lletya. Mae'r gwaith sy'n ymwneud â rhianta corfforaethol yn benodol yn cynnwys egwyddor i ddileu stigma – cydnabod pobl ifanc am bwy ydynt, nid eu profiad o fod mewn gofal yn unig. Nod mesurau cysondeb

			cenedlaethol a phrosesau lwfansau cliriach yw lleihau amrywiad cod post, ond byddant yn dibynnu ar weithredu teg.
Erthygl 3 – Budd pennaf y plentyn	Mae cysondeb rhwng gwaith cynllunio, sefydlogrwydd cynnar, a fframweithiau strwythuredig yn helpu i wneud penderfyniadau gwell ac amserol. Gwellar wybodaeth sydd ar gael i bobl ifanc ar ôl gadael gofal.	Gallai dibynnu gormod ar broses neu dempledi gyfyngu ar benderfyniadau wedi'u personoli sy'n canolbwyntio ar y plentyn. Datblygu gwybodaeth gyson ar lefel genedlaethol a lleol.	Nod y cynigion yw gwella cynllunio gofal, sefydlogrwydd lleoliadau, a mynediad at wasanaethau cymorth, gan sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud er budd pennaf y plentyn. Bydd dyletswyddau statudol yn sicrhau gwasanaethau o ansawdd uchel. Mae pob cynnig yn ceisio cryfhau penderfyniadau budd pennaf, ond mae effeithiolrwydd yn dibynnu ar gynnal hyblygrwydd ochr yn ochr â strwythur. Bydd y newidiadau arfaethedig yn ceisio datblygu platfform gwybodaeth cenedlaethol ar gyfer plant mewn gofal a phobl sy'n gadael gofal. Bydd hyn yn cysylltu ag adnoddau gwybodaeth ar lefel leol. Bydd y gwaith hwn yn codi ymwybyddiaeth o'r cymorth a'r wybodaeth sydd ar gael ar ôl gadael gofal gan weithredu

			er budd pennaf y plant.
Erthygl 5 - Canllawiau rhieni a gallu plentyn sy'n esblygu	Mae'n cynorthwyo gofalwyr sy'n berthnasau a gwarcheidwaid arbennig trwy gydnabod eu rôl yn rhoi gofal a'u hymreolaeth.	Gall lefelau llai o oruchwyliaeth gyfyngu ar gymorth proffesiynol os oes risgiau neu gymhlethdodau yn bodoli.	Mae trefniadau hyblyg ar gyfer gofal gan berthynas a chynlluniau cymorth Gwarcheidiaeth Arbennig yn newid y cydbwysedd tuag at gyfrifoldeb teuluol, sy'n golygu bod angen mesurau diogelu cymorth priodol.
Erthygl 6 - Bywyd, Goroesi a Datblygu	Mae lleoliad parhaol cynnar yn cefnogi sefydlogrwydd a datblygiad emosiynol hirdymor.	Os yw penderfyniadau'n cael eu gwneud yn rhy gynnar, mae'n bosibl na fyddant yn ystyried anghenion datblygiadol hirdymor yn llawn.	Mae fframwaith Sefydlogrwydd Cynnar Cymru yn hyrwyddo sefydlogrwydd cynnar, wedi'i gefnogi gan gynllunio gwell, ond rhaid iddo osgoi penderfyniadau cynamserol.
Erthygl 8 – Diogelu a Chadw Hunaniaeth	Mae gofal gan berthynas yn helpu i gadw hunaniaeth a pharhad teuluol.	Gall mabwysiadu/sefydlogrwydd cynnar wanhau cysylltiadau â'r teulu geni os nad yw'r broses yn cael ei rheoli'n ofalus.	Mae gofal gan berthynas yn cynorthwyo hunaniaeth ddiwylliannol a theuluol, tra bod yn rhaid i benderfyniadau am sefydlogrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng sefydlogrwydd a hunaniaeth.
Erthygl 12 – Parch at Farn y Plentyn	Mae prosesau cynllunio cryfach yn creu cyfleoedd i gynnwys barn plant.	Gall natur dechnegol y cynigion gyfyngu ar ymgysylltiad uniongyrchol.	Cryfhau llais y plentyn mewn prosesau cynllunio ac adolygu gofal, yn enwedig trwy ddiweddariadau i'r Cod Ymarfer Rhan 6.

	Gwella hawliau plant i sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed a bod pobl yn gwrando arnynt.	Sicrhau bod barn plant a phobl ifanc yn rhan annatod o'r broses o ddarparu gwasanaethau.	Mae cynigion ar gyfer trefniadau adolygu mwy hyblyg ar gyfer gofal gan berthynas yn cynnwys ymgynghori â'r plentyn a'r teulu cyn penderfynu ar amllder ymweliadau. Gwahoddir plant i gyfrannu at ddyluniad a chynnwys cyhoeddiadau sy'n addas i blant sy'n egluro'r newidiadau. Mae'r newidiadau arfaethedig yn cefnogi'r gwaith o sefydlu paneli rhianta corfforaethol a fyddai'n gweithio gyda phobl ifanc yn eu hardal wrth ddatblygu a darparu gwasanaethau.
Erthygl 13 – Rhyddid Mynegiant - Hawl i gael gwybodaeth	Ymrwymiad i fformatau cyfathrebu sy'n addas i blant. Mynediad plant a phobl ifanc at y wybodaeth gywir a chymorth i rannu eu barn.	Risg o gyfathrebu annigonol ar gyfer plant ag anghenion gwahanol. Darparu'r wybodaeth hygyrch yn y fformat cywir.	Bydd y polisi'n sicrhau ei bod yn ofynnol i awdurdodau lleol ac asiantaethau ddarparu diweddariadau mewn fformatau sy'n addas i blant a thrwy nifer o sianeli sy'n cynnwys cysylltu â chynghorau ieuenctid mabwysiadu, Grŵp Connect a chylchgrawn Thrive i blant sy'n derbyn gofal, sy'n ystyried anghenion cyfathrebu amrywiol

			plant fel iaith, anabledd a chyddestunau sy'n ymwneud â diwylliant a llesiant. Fel uchod, mae'r newidiadau arfaethedig yn cefnogi'r gwaith o sefydlu paneli rhianta corfforaethol a'u hymgysylltiad â phobl ifanc. Byddai'r paneli yn rhannu gwybodaeth am gynnydd gyda rhianta corfforaethol ac yn darparu fforwm i rannu safbwyntiau.
Erthygl 18 - Cyfrifoldebau rhieni a chymorth y wladwriaeth - Cymorth i ofalwyr	Mae cymorth ariannol a chynlluniau strwythuredig yn cryfhau gallu gofalwyr i ddiwallu anghenion plant.	Gall rhwystrau i gael mynediad at lwfansau neu gymorth anghyson leihau effeithiolrwydd.	Mae lwfansau, templedi cymorth Gwarcheidiaeth Arbennig a hyblygrwydd ar gyfer gofal gan berthynas yn gwella cymorth, ond rhaid i fynediad fod yn syml ac yn gyson.
Erthygl 19 – Amddiffyn rhag trais, camdriniaeth ac esgeulustod	Mae dyletswyddau diogelu yn parhau i fod yn statudol.	Gallai mwy o hyblygrwydd mewn trefniadau adolygu gofal arwain at arferion anghyson ar draws awdurdodau lleol, gan greu bylchau o ran canfod a mynd i'r afael â risgiau trais, camdriniaeth neu esgeulustod.	Mae'r polisi'n cynnal dyletswyddau diogelu statudol ac archwiliadau comisiynu i amddiffyn plant rhag niwed. Ystyrir bod y mesurau lliniaru'n ddigonol gan fod dyletswyddau diogelu statudol yn dal mewn grym.
Erthygl 20 – Plant nad ydynt yn gallu byw gyda'u teulu	Mae gwella fframweithiau mabwysiadu, maethu a gofal gan berthynas yn cryfhau sefydlogrwydd i	Gallai cyflwyno trefniadau adolygu hyblyg ar gyfer trefniadau gofal gan berthynas arwain at anghysondebau gweithredu ar draws awdurdodau lleol, gan	Mae gwelliannau i fframweithiau mabwysiadu, maethu a gofal gan berthynas yn cefnogi plant sy'n derbyn gofal, gan sicrhau

	blant sy'n derbyn gofal trwy gyflwyno prosesau asesu ac adolygu wedi'u teilwra ar gyfer trefniadau gofal gan berthynas, gan leihau stigma a biwrocratiaeth ddiangen. Mae templedi'r Cynllun Cymorth Gwarcheidiaeth Arbennig Statudol a chynnwys y Fframwaith Sefydlogrwydd Cynnar yn y Cod yn sicrhau cymorth cyson o ansawdd uchel ac yn lleihau trawma a tharfu yn y lleoliad. Hawl plentyn neu berson ifanc i dderbyn gofal.	arwain o bosibl at safonau gofal anghyfartal. Gallai defnydd statudol o dempledi Cynllun Cymorth Gwarcheidiaeth Arbennig ac arferion Sefydlogrwydd Cynnar roi straen ar adnoddau a chapasiti'r gweithlu, gan arwain at yr angen am brosesau monitro cadarn er mwyn osgoi bylchau mewn cymorth. Y lleoliadau gwahanol sydd ar gael i blant a phobl ifanc.	lleoliadau priodol a sefydlog. Cyflwyno categori penodol ar gyfer gofalmwr maeth sy'n berthnasau, gyda fframweithiau asesu ac adolygu wedi'u teilwra i leihau stigma a biwrocratiaeth. Mae templedi Cynlluniau Cymorth Gwarcheidiaeth Arbennig yn dod yn statudol i sicrhau cymorth cyson o ansawdd uchel i blant mewn trefniadau teuluol parhaol. Mae'r Fframwaith Sefydlogrwydd Cynnar wedi'i nodi yn y Cod er mwyn lleihau trawma a tharfu yn y lleoliad. Un o egwyddorion allweddol rhianta corfforaethol fel yr amlinellir yn y siarter rhianta corfforaethol yw Cartref Sefydlog. Mae rhianta corfforaethol yn ymwneud â darparu lleoedd sefydlog i fyw sy'n addas i ofal o bob math.
Erthygl 21 – Mabwysiadu	Gwell trefniadau cynllunio a chymorth ar gyfer mabwysiadu.	Gall canolbwyntio ar gyflymder (sefydlogrwydd cynnar) arwain at broses archwilio opsiynau annigonol.	Mae aliniad, cysondeb a'r Fframwaith Sefydlogrwydd Cynnar Cymru ond

	Hawl plentyn neu berson ifanc i gael gofal.	Y lleoliadau gwahanol sydd ar gael i blant a phobl ifanc.	rhaid cadw mesurau diogelu er mwyn gwneud penderfyniadau trylwyr. Un o egwyddorion allweddol rhianta corfforaethol a amlinellir yn y siarter rhianta corfforaethol yw Cartref Sefydlog. Mae rhianta corfforaethol yn ymwneud â darparu lleoedd sefydlog i fyw sy'n addas i ofal o bob math.
Erthygl 23 - Plant ag Anabledd	Mae'r templedi yn cynnwys cymorth wedi'i deilwra i blant anabl. Mae Rhianta Corfforaethol a chryfhau llais y plentyn yn berthnasol i bob plentyn.	Risg na fydd darpariaeth arbenigol wedi'i theilwra ar gael yn rhwydd i deuluoedd sydd ei hangen. Sicrhau bod safbwyntiau pob plentyn a pherson ifanc yn rhan annatod o'r broses o ddarparu gwasanaethau.	Mae'r polisi'n cefnogi'r hawl hon drwy fynnu bod templedi cynlluniau cymorth wedi'u datblygu'n genedlaethol ar gael sy'n cynnwys darpariaethau wedi'u teilwra ar gyfer plant anabl a'u gofalwyr. Bydd y templedi pwrpasol hyn yn cynnwys asesiad o anghenion gofal a chymorth plant anabl. Mae hyn yn sicrhau cysondeb ac ansawdd wrth ddiwallu anghenion ychwanegol o fewn trefniadau gofal. Mae'r newidiadau hyn yn ymwneud â sicrhau cysondeb ac ansawdd cymorth, gwasanaethau a gwybodaeth i bob plentyn a pherson ifanc.

Erthygl 24 - Iechyd a Gwasanaethau Iechyd	Yr hawl i'r gofal iechyd a'r cyngor sydd eu hangen i gefnogi'r llesiant corfforol, iechyd meddwl a llesiant cyffredinol gorau ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc â phrofiad o fod mewn gofal.	Mynediad amserol at wasanaethau gofal iechyd.	Mae'r holl fyrddau iechyd lleol wedi llofnodi'r Siarter a byddant yn gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol er mwyn ei gyflawni.
Erthygl 25 - Adolygu triniaeth mewn gofal	Mae'r polisi'n gwella'r hawl hon drwy gyflwyno trefniadau adolygu cliriach a mwy hyblyg ar gyfer gofal gan berthynas a chynnal goruchwyliaeth drwy ddyletswyddau statudol. Mae hyn yn sicrhau bod cynlluniau gofal plant yn cael eu hasesu a'u haddasu'n rheolaidd i ddiwallu eu hanghenion unigol. Bydd cyflwyno'r templed cymorth Gwarcheidiaeth Arbennig yn darparu fframwaith cydlynol ar gyfer darparu cymorth wedi'i deilwra i'r teulu.	Gallai mwy o hyblygrwydd mewn trefniadau adolygu arwain at anghysondebau yn y ffordd y cynhelir adolygiadau gofal ar draws awdurdodau lleol gwahanol. Ar ben hynny, gallai llai o oruchwyliaeth reoleiddiol wanhau atebolrwydd i sicrhau bod anghenion plant yn cael sylw llawn yn ystod yr adolygiadau hyn. Risg o ddehongli'n anghyson y templed Gorchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig ar draws awdurdodau lleol.	Mae'r cynigion ar gyfer trefniadau adolygu mwy hyblyg ar gyfer gofal gan berthynas yn parhau i gynnal goruchwyliaeth, wedi'i theilwra i anghenion y plentyn ac wrth iddo fynd yn hŷn maent yn dod yn fwy ymatebol i amgylchiadau sy'n esblygu neu'n newid. Drwy ychwanegu gofyniad statudol ar gyfer templed Gorchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig i bob awdurdod lleol ei ddefnyddio, bydd y templedi yn sicrhau dull gweithredu cyson ledled Cymru. Bydd hyn yn hyrwyddo tegwch ac eglurder. Bydd eu cludadwyedd rhwng awdurdodau lleol yn gwella parhad gofal ac yn lleihau dyblygu.

Erthygl 26 – Yr hawl i gael budd o nawdd cymdeithasol	Canllawiau cliriach ar lwfansau maethu uwch sy'n ceisio cryfhau'r cymorth ariannol sydd ar gael i deuluoedd. Mae'r polisi yn amlinellu'n glir sut y gellir asesu gofalwyr sydd wedi'u cymeradwyo dros dro yn erbyn meini prawf cymhwysra awdurdodau lleol ar gyfer lwfans uwch.	Gallai amrywiadau o ran y modd y bydd awdurdodau lleol yn gweithredu hyn effeithio ar fynediad at lwfansau.	Mae'r polisi yn cryfhau cymorth ariannol i blant drwy egluro mynediad at lwfansau maethu uwch a sicrhau cysondeb drwy ganllawiau statudol. Mae hyn yn helpu teuluoedd mewn angen i gynnal sefydlogrwydd a diwallu anghenion hanfodol plant, gan leihau'r risg o galedi ariannol.
Erthygl 27 - Safon byw ddigonol	Egluro mynediad at lwfansau maethu uwch a chyflwyno templedi statudol ar gyfer cynlluniau cymorth, gan sicrhau sefydlogrwydd ariannol ac ymarferol i blant mewn gofal. Mae'r mesurau hyn yn helpu gofalwyr i ddiwallu anghenion hanfodol plant a chynnal safon byw gyson ar draws trefniadau gofal.	Er bod y polisi yn egluro mynediad at lwfansau maethu uwch, mae risg o weithredu anghyson ar draws awdurdodau lleol, a allai arwain at gymorth ariannol anghyfartal i deuluoedd. Ar ben hynny, gall mwy o alw ar wasanaethau heb gyllid digonol roi straen ar adnoddau, a allai effeithio ar safon byw plant.	Mae egluro mynediad at lwfansau maethu uwch yn cefnogi sefydlogrwydd ariannol i ofalwyr, sydd o fudd i lesiant plant.

Erthygl 39 – Adfer ar ôl trawma ac ailintegreiddio	Mae'r cynigion yn cefnogi adferiad trwy hyrwyddo trefniadau parhaol yn gynnar, sefydlogrwydd a sicrhau bod prosesau cynllunio gofal a mabwysiadu yn gyson. Maent yn cryfhau gallu plant i sefydlu ymlyniadau cadarn, yn lleihau oedi, ac yn sicrhau mynediad at gymorth strwythuredig sy'n seiliedig ar anghenion (gan gynnwys cymorth ariannol a chynlluniau Gwarcheidiaeth Arbennig), sydd i gyd yn hanfodol ar gyfer adferiad ac ailintegreiddio. Mae mynediad gwell at wasanaethau therapiwtig i blant a phobl ifanc, oedolion a fabwysiadwyd a theuluoedd yn cefnogi adferiad a llesiant emosiynol. Mae dileu rhwystrau i	Mae risg y gallai mwy o hyblygrwydd mewn ymarfer ac unrhyw ddiffyg eglurder mewn canllawiau (e.e. yn ymwneud â threfniadau ymweld neu hawliau ariannol) arwain at brosesau gweithredu anghyson. Gallai hyn wanhau goruchwyliaeth diogelu neu gyfyngu ar fynediad at gymorth, a allai gael effaith negyddol ar amgylcheddau adfer plant.	Mae'r newidiadau yn cyd-fynd yn sylweddol ag Erthygl 39 trwy wella sefydlogrwydd, cymorth a llwybrau gofal therapiwtig. Fodd bynnag, mae effeithiolrwydd y newidiadau yn dibynnu ar ganllawiau clir, cysondeb a goruchwyliaeth gadarn i sicrhau budd cyfartal i bob plentyn. Bydd y dull rhianta corfforaethol sy'n cael ei gefnogi gan y newidiadau hyn yn gwella mynediad at wasanaethau therapiwtig ar gyfer plant a phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal ac yn gwella eu llesiant.

	gael gafael ar wasanaethau cwnsela ar fabwysiadu i oedolion o fudd anuniongyrchol i blant drwy wella llesiant a sefydlogrwydd teuluoedd.		
--	--	--	--

Mae'r cynigion hyn wedi'u cynllunio i gynnal a gwella hawliau plant drwy wella'r systemau sy'n cefnogi eu gofal, eu diogelwch a'u datblygiad.

Mae'r cynigion wedi cael eu hadolygu yn erbyn arsylwadau terfynol a sylwadau cyffredinol CCUHP i sicrhau eu bod yn cyd-fynd ag arferion gorau rhyngwladol, yn enwedig yr adran ar blant sy'n cael eu hamddifadu o amgylchedd teuluol (paragraffau 37-38) sydd â chysylltiadau â'r gwaith sy'n cael ei wneud ar rianta corfforaethol. Hefyd, nod y cynigion yw gwella cysondeb, sefydlogrwydd a threfniadau cymesur sy'n canolbwyntio ar y plentyn ar gyfer plant sy'n cael eu hamddifadu o amgylchedd teuluol.

Mae'r newidiadau arfaethedig yn cefnogi'r broses o gymhwyso'r egwyddor budd pennaf (paragraff 21) trwy gryfhau disgwyliadau yn ymwneud â phrosesau asesu, cynllunio gofal ac adolygu. Hefyd, maent yn atgyfnerthu pwysigrwydd ceisio ac ystyried barn plant ar benderfyniadau sy'n effeithio arnynt, yn unol ag argymhellion ar fynediad at gyfiawnder a rhwymedïau (paragraff 17) a pharchu safbwyntiau'r plentyn (paragraff 23).

Roedd Sylwadau Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig a ystyriwyd yn cynnwys paragraffau 6, 12 a 14 ac ni chanfuwyd unrhyw berthnasedd uniongyrchol i'r cynigion.

- Ystyried a yw unrhyw Hawliau Dinasyddion yr UE (fel y'u nodir yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb) yn ymwneud â phobl ifanc hyd at 18 oed.

Nid yw'r newidiadau arfaethedig a amlinellir yn nogfennau ymgynghori Llywodraeth Cymru yn cyfeirio'n uniongyrchol at Hawliau Dinasyddion yr UE mewn perthynas â phlant a phobl ifanc. Fodd bynnag, mae'n bwysig ystyried sut gallai'r hawliau hyn fod yn berthnasol, yn enwedig i blant a phobl ifanc hyd at 18 oed sy'n wladolion yr UE neu sydd ag aelodau o'r teulu sy'n ddinasyddion yr UE sy'n byw yng Nghymru.

Ystyriaethau Perthnasol:

- **Mynediad at wasanaethau gofal cymdeithasol:** Dylai plant yr UE sy'n byw yng Nghymru gael mynediad cyfartal at wasanaethau mabwysiadu, maethu, gofal gan berthynas a gwarcheidiaeth arbennig. Rhaid gweithredu'r newidiadau arfaethedig - fel gwella cynllunio gofal, cynyddu mynediad at wasanaethau cymorth ac egluro cymhwystra ar gyfer lwfansau maethu uwch -

mewn ffordd nad yw'n rhoi plant dan anfantais ar sail eu cenedligrwydd neu eu statws mewnfudo.

- **Diogelu a sefydlogrwydd lleoliadau:** Gall plant yr UE sydd mewn gofal wynebu ffactorau ychwanegol sy'n eu gwneud yn fwy agored i niwed, fel rhwystrau iaith, gwahaniaethau diwylliannol neu ansicrwydd ynghylch statws preswyllo. Gallai'r cynigion i wella sefydlogrwydd lleoliadau helpu i sicrhau bod plant yr UE yn cael eu lleoli mewn amgylcheddau diogel sy'n briodol yn ddiwylliannol.
- **Hawl i fywyd teuluol a pharhad gofal:** O dan Hawliau Dinasyddion yr UE a CCUHP, mae gan blant yr hawl i gadw mewn cysylltiad ag aelodau o'u teulu. Gallai cynigion sy'n gwella'r cymorth ar gyfer gofal gan berthynas a threfniadau cyswllt sy'n gysylltiedig â mabwysiadu gryfhau'r hawl hon, yn enwedig ar gyfer plant sydd wedi'u gwahanu oddi wrth eu teulu oherwydd achosion mudo neu achosion gofal.

Er nad yw'r cynigion yn mynd i'r afael yn benodol â Hawliau Dinasyddion yr UE, dylid eu rhoi ar waith mewn ffordd sy'n sicrhau nad oes gwahaniaethu ac sy'n sicrhau mynediad cyfartal a bod hawliau pob plentyn yn cael eu diogelu, gan gynnwys y rheini sy'n wladolion yr UE neu sydd â chysylltiadau teuluol â'r UE. Mae hyn yn cynnwys sicrhau nad yw statws mewnfudo yn dod yn rhwystr rhag cael gofal, cymorth neu gymorth ariannol o dan y fframweithiau diwygiedig.

4. Cyngor Gweinidogol a Phenderfyniad y Gweinidog

Bydd y dadansoddiad o'r effeithiau hyn yn cael ei gynnwys yn y cyngor Gweinidogol i geisio cytundeb i gyhoeddi dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus a gosod y fersiynau diwygiedig o'r Cod Ymarfer Rhan 6 a'r Cod Ymarfer Gorchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig.

5. Cyfathrebu â Phlant a Phobl Ifanc

Oherwydd natur dechnegol llawer o'r newidiadau arfaethedig, yn enwedig y rhai yn ymwneud â fframweithiau rheoleiddio, canllawiau statudol a phrosesau gweinyddol, ni ystyriwyd ei bod yn gymesur nac yn briodol ymgysylltu'n uniongyrchol â phlant a phobl ifanc ar yr agweddau hyn.

Fodd bynnag, ymgysylltwyd â phlant a phobl ifanc fel rhan o weithgarwch ymgynghori cynharach ar elfennau rhianta corfforaethol y cynigion. Roedd hyn yn cynnwys sesiwn gyfranogi gyda phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal, lle cafwyd adborth cadarnhaol. Pwysleisiodd pobl ifanc ei bod yn bwysig iddynt gael mynediad at wybodaeth mewn fformatau sy'n hawdd eu deall ac ymwneud â nhw, fel gwefannau, apiau a llyfrau. Hefyd, nodwyd bod angen i rieni corfforaethol fod yn atebol ac yn dryloyw wrth ddangos cynnydd.

Mae'r adborth hwn gan bobl ifanc wedi'i adlewyrchu yn y bennod canllawiau newydd sydd wedi'i chynnwys yn y Cod diwygiedig. Hefyd, mae gwaith yn cael ei wneud gyda Voices from Care Cymru a'u llysgenhadon ifanc sydd â phrofiad o fod mewn

gofal er mwyn datblygu pecyn cymorth i helpu'r paneli gyda sut maent yn ymwneud â phobl ifanc. Mewn perthynas â chael gafael ar wybodaeth, mae'r adborth gan bobl ifanc yn llywio gwaith i archwilio datblygu platfform ar-lein i blant a phobl ifanc a sicrhau bod gwybodaeth am hawliau a hawlogaethau yn hygyrch pan fyddant yn gadael gofal. Byddwn ni'n gweithio'n agos gyda phobl ifanc i fwrw ymlaen â'r gwaith hwn.

Felly, cafodd y cynigion sy'n weddill eu llywio trwy ymgysylltu helaeth â gweithwyr proffesiynol, gofalwyr, gwasanaethau cymorth, a sefydliadau sy'n gweithio'n agos gyda phlant a phobl ifanc, gan gynnwys y rhai sydd â phrofiad bywyd o ofal. Mae eu cyfraniadau wedi helpu i sicrhau bod y diwygiadau yn cael eu llunio gan ddealltwriaeth gadarn o anghenion a hawliau plant.

Bydd gwybodaeth berthnasol yn cael ei chyfleu drwy fformatau sy'n addas i blant, gan gynnwys cyhoeddiadau hygyrch a fforymau ieuencid, a bydd sefydliadau fel y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol a Maethu Cymru yn helpu i ledaenu'r wybodaeth.

5. Monitro ac Adolygu

Er mwyn sicrhau bod yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant yn parhau i fod yn berthnasol ac yn effeithiol, bydd y mecanweithiau monitro ac adolygu canlynol yn cael eu rhoi ar waith:

- **Integreiddio â goruchwyllo'r broses weithredu:** Bydd yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant yn cael ei adolygu ochr yn ochr â'r gwaith o roi'r newidiadau arfaethedig i'r Cod Ymarfer ar waith. Bydd hyn yn sicrhau bod unrhyw effeithiau anfwriadol ar hawliau plant yn cael eu nodi ac yn cael sylw'n gynnar.
- **Adborth gan randdeiliaid:** Bydd ymgysylltu parhaus ag awdurdodau lleol, sefydliadau trydydd sector, gofalwyr ac ymarferwyr yn helpu i fonitro sut mae'r newidiadau'n effeithio yn ymarferol ar blant a phobl ifanc.
- **Adolygiad yn dilyn canlyniadau'r ymgynghoriad:** Ar ôl dadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad a gwneud y penderfyniadau terfynol, bydd yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant yn cael ei ddiweddarau i adlewyrchu unrhyw newidiadau i'r cynigion ac i asesu a oes angen mesurau lliniaru neu welliannau ychwanegol.
- **Gwerthusiad ar ôl gweithredu:** Bydd adolygiad ffurfiol o'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant yn cael ei drefnu o fewn 12-18 mis i weithredu'r diwygiadau, yn unol ag unrhyw werthusiad ehangach o'r diwygiadau. Bydd hyn yn cynnwys ystyried adborth gan blant a phobl ifanc lle bo hynny'n briodol.
- **Cydlynu ar draws polisïau:** Bydd yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant yn cael ei ddiwygio os yw meysydd polisi cysylltiedig (e.e. addysg, iechyd, tai) yn cyflwyno newidiadau a allai ryngweithio â'r cynigion ac effeithio ar hawliau plant.